

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Iau, 11 Rhagfyr 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Is-Gadeirydd Ifan Rowlands, Glyn Hughes, Peredur Hughes, Trefor Jones, Iona Phillips, John T Rowlands, Cynghorydd John W Griffith – Talybolion

Ymddiheuriadau Cadeirydd Owain Owen, Arthur Jones, John Griffith, Geraint Owen, Ffion Roberts, Hugh Williams

Datganiadau diddordeb Cyng John W Griffith (eitem 4); John T Rowlands ac Anna Jones (eitem 4)

1 Cofnodion cyfarfod Tachwedd 2014

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Tachwedd 2014 gyda Mr Trefor Jones yn cynnig a Mr Glyn Hughes yn eilio.

2 Datgan diddordeb

Mae rhestr o ffurflen Datgan Diddordeb ar gael gan y Clerc.

3 Materion â codwyd

3.1 Cofeb Syr Thomas Jones

Nad oedd yn glir os bu arian ar gael oddi wrth CSYM i gyfrannu tuag at Gofeb i Syr Thomas Jones. Penderfynwyd bu'r Clerc yn holi ei wyres i gael ymateb y teulu i'r syniad o gofeb.

3.2 Wylfa Newydd – PLG

Eglurodd Cyng John W Griffith nad oedd Horizon yn hystyried cynnwys y 'Supplementary Planning Guidance' oedd wedi paratoi ar gyfer cynllunio ag adeiladu Wylfa Newydd.

Efallai bu cyfarfod cyhoeddus yn 2015 ynglŷn â newidiadau i'r Ion (A5025).

4 Ceisiadau Cynllunio

Datgan diddordeb: Cyng John W Griffith yn gyffredinol; John T Rowlands a'r Clerc yn gadael yr ystafell ar gyfer 4.1

4.1 47C141: Cais llawn i ymestyn cwrtil ynghyd a addasu ag ehangu yn / Full application for extension of curtilage together with alterations and extensions at : *Porfa Las, Llanddeusant*

Cytuno yn unfrydol.

4.2 47C140: Cais llawn i dymchwel ystafell haul presennol ynghyd ac addasu ag ehangu yn / Full application for the demolition of the existing sun room together with alterations and extensions at : *Llynnon Hall, Llanddeusant*

Cytuno yn unfrydol.

4.3 47C142/FR: Cais llawn i ddymchwel y capel presennol a chodi estyniad i'r annedd, ynghyd ag addasu mynedfa i gerbydau yn / Full application for the demolition of the existing chapel and the erection of an extension to the dwelling, together with alterations to the existing access at : *Tŷ Capel, Capel Elim, Elim*

Derbyn y cais gydag ychydig o amodau/cwestiynau: bechod dymchwel yr adeilad ond derbyn bod addasu yn well na gadael iddo ddistrywio, ydy'r Capel yn Rhestredig? ydy'r tŷ am gael ei fyw yn ta'n tŷ haf, oes angen mwy o dai haf? mae'r ardal y llifio; pwysleisio bod rhaid parchu'r fynwent o'i gwmpas.

4.4 47C142A/FR: Cais llawn i newid defnydd yr ysgoldy i annedd ynghyd a chau porth presennol yn / Full application for the conversion of the schoolroom into a dwelling together with closing the existing gateway at : *The Schoolroom, Capel Elim, Elim*

Roedd y cais wedi ei dderbyn yn hwyr ac wedi profi'n anodd ei weld ar y CD gan adran cynllunio. O'r wybodaeth ar gael derbyniwyd y cais eto gyda nifer o cwestiynau/amodau: meddwl bod y Schoolroom wedi ei Rhestru? tybio bu'n tŷ haf, oes angen mwy o dai haf? mae'r ardal y llifio; pwysleisio bod rhaid parchu'r fynwent o'i gwmpas.

5 CSYM:

Gwahoddiad i cyfarfod Bwyllgor Sgriwtini – 18 Rhagfyr @ 6pm yn Llangefni

Cynnig bod y Clerc yn mynd i'r cyfarfod.

Post ers cyfarfod blaenorol

CSYM : Cynllunio 47C95A/LB – Ty'r Felin, Llanddeusant Caniatâd